

# Hyfforddiant iechyd a diogelwch

Canllaw cryno



Mae hyn yn fersiwn  
**Cwmraeg** o'r daflen  
INDG345(rev1), a  
gyhoeddwyd 11/12 yw hwn

**Mae'r daflen hon yn esbonio beth allai fod angen i chi, fel cyflogwr, ei wneud i sicrhau fod eich cyflogeion yn derbyn hyfforddiant iechyd a diogelwch priodol. Mae'n rhoi cyngor ar bwy sydd angen hyfforddiant, ar ba ffurf fydd yr hyfforddiant a sut i'w drefnu. Bydd y daflen hefyd yn ddefnyddiol i gyflogeion a'u cynrychiolwyr.**

## Beth yw hyfforddiant?

Golyga hyfforddiant helpu pobl i ddysgu sut i wneud rhywbeth, rhoi gwybod i bobl beth ddylent neu na ddylent ei wneud, neu ddim ond roi gwybodaeth iddynt. Mae hyfforddiant yn fwy na dim ond cyrsiau 'dosbarth' ffurfiol.

## Pam darparu hyfforddiant iechyd a diogelwch?

Mae darparu gwybodaeth a hyfforddiant iechyd a diogelwch yn eich helpu i:

- sicrhau bod pobl sy'n gweithio i chi yn gwybod sut i weithio'n ddiogel heb risgiau i iechyd;
- ddatblygu diwylliant iechyd a diogelwch positif, ble mae gwaith iach a diogel yn ail natur i bawb;
- fodloni eich dyletswydd gyfreithiol i amddiffyn iechyd a diogelwch eich cyflogeion.

Hyfforddiant effeithiol:

- bydd yn cyfrannu tuag at wneud eich cyflogeion yn gymwys o ran iechyd a diogelwch;
- gall helpu eich busnes i osgoi'r trallod y mae damweiniau ac afiechyd yn ei achosi;
- gall eich helpu i osgoi costau ariannol damweiniau a salwch galwedigaethol, megis cynnyrch wedi difrodi, colli amser cynhyrchu a staff anfodlon. Peidiwch ag anghofio nad yw'ch yswiriant o reidrwydd yn talu'r costau hyn i gyd. Am wybodaeth ynglŷn ag yswiriant busnes, ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk).

## Y gyfraith

Mae **Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974** yn ei gwneud yn ofynnol i chi roi pa bynnag wybodaeth, cyfarwyddiadau, hyfforddiant a goruchwyliaeth sy'n angenrheidiol, cyn belled ag y mae'n rhesymol ymarferol, i sicrhau iechyd a diogelwch eich cyflogeion yn y gwaith.

Mae hyn wedi ei ehangu gan y **Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999**, sy'n nodi sefyllfaoedd ble mae hyfforddiant iechyd a diogelwch yn arbennig o bwysig, e.e. pan fydd pobl yn cychwyn gweithio, ar amlygiad i risgiau newydd neu gynyddol a ble bydd sgiliau presennol angen eu diwygio neu ddiweddarau.

Fel nifer o gyflogwyr, efallai na fyddwch mewn sefyllfa i allu darparu hyfforddiant eich hun, felly byddwch angen cymorth cymwys. Os yn bosibl, dylech benodi

un neu fwy o'ch cyflogeion. Os ydych angen cymorth pellach, edrychwch ar daflen yr HSE INDG420 *Getting specialist help with health and safety* am gyngor ar [www.hse.gov.uk/pubns/indg420.pdf](http://www.hse.gov.uk/pubns/indg420.pdf). Hefyd, edrychwch ar [www.hse.gov.uk/business/competent-advice.htm](http://www.hse.gov.uk/business/competent-advice.htm) sy'n cynnwys cyngor manwl ar ddewis a rheoli ymgynghorwr iechyd a diogelwch.

**Mae'r Rheoliadau Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch 1977 a'r Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Ymgynghori â Chyflogeion)**

**1996** yn gofyn i chi ymgynghori â'ch cyflogeion, neu eu cynrychiolwyr, ar faterion iechyd a diogelwch. Mae gan gynrychiolwyr a benodir dan unrhyw un o'r cyfresi hyn o reoliadau hawl i amser o'r gwaith gyda thâl i gyflawni hyfforddiant ar eu dyletswyddau. Am ragor o fanylion ar hyn gweler: [www.hse.gov.uk/pubns/books/l146.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/books/l146.htm)

**Mae'r Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Hyfforddiant ar gyfer Cyflogaeth)**

**1990** yn sicrhau fod dysgwyr ar brofiad gwaith wedi eu cynnwys dan gyfraith iechyd a diogelwch.

Mae nifer o reoliadau eraill sy'n cynnwys gofynion hyfforddiant iechyd a diogelwch penodol, e.e. asbestos, deifio a chymorth cyntaf.

## **Beth am bobl hunangyflogedig?**

Os bydd rhywun sy'n gweithio dan eich rheolaeth a'ch cyfarwyddyd yn cael ei drin fel hunangyflogedig at ddibenion treth ac yswiriant gwladol, gellir fodd bynnag eu hystyried i fod yn gyflogai at ddibenion iechyd a diogelwch. Felly, mae angen i chi weithredu'n briodol i'w diogelu.

Am canllawiauei pellach ar weithio gyda chontractwyr a phobl hunangyflogedig, gweler [www.hse.gov.uk/pubns/indg368.pdf](http://www.hse.gov.uk/pubns/indg368.pdf).

Os nad ydych eisiau cyflogi gweithwyr ar y sail hon, dylech geisio cyngor cyfreithiol. Yn y bôn, dim ond yn ôl rhinweddau'r achos unigol y gall llys ddod i benderfyniad.

## **Pwy sydd angen hyfforddiant iechyd a diogelwch?**

**Chi!** P'un a ydych yn gyflogwr neu'n hunangyflogedig, a ydych chi'n sicr bod gennych wybodaeth gyfredol ar sut i nodi'r peryglon a rheoli risgiau o'ch gwaith? A wyddoch chi sut i gael cymorth – gan eich cymdeithas fasnach, eich Siambr Masnach leol, neu'ch awdurdod gorfodi iechyd a diogelwch? A wyddoch chi beth sydd angen i chi wneud am ymgynghori â'ch cyflogeion, neu eu cynrychiolwyr, ar faterion iechyd a diogelwch? Os nad, mae'n debygol y byddech yn elwa o rywfaint o hyfforddiant.

**Eich rheolwyr a'ch goruchwylwyr!** Os ydych yn cyflogi rheolwyr neu oruchwylwyr, mae angen iddynt wybod beth ydych yn ei ddei isgwyl ganddynt o ran iechyd a diogelwch, a sut ydych yn disgwyl iddynt gyflawni. Mae angen iddynt ddeall eich polisi iechyd a diogelwch, ble maent yn cyd-fynd, a sut ydych chi eisiau rheoli eich iechyd a diogelwch. Efallai y byddant hefyd angen hyfforddiant ar beryglon penodol eich prosesau a sut ydych yn disgwyl rheoli'r risgiau.

**Eich cyflogeion!** Mae angen i bawb sy'n gweithio i chi, yn cynnwys pobl hunangyflogedig, wybod sut i weithio'n ddiogel a heb risgiau i iechyd. Fel eich goruchwylwyr, mae angen iddynt wybod am eich polisi iechyd a diogelwch, eich trefniadau i'w weithredu, a'r rhan maent yn chwarae. Maent hefyd angen gwybod sut allant godi unrhyw bryderon am iechyd a diogelwch gyda chi.

**Contractwyr a phobl hunangyflogedig allai fod yn gweithio i chi!** Cofiwch, efallai na fydd y bobl hyn yn gyfarwydd â'ch amgylchedd gwaith a systemau diogelwch sydd gennych yn eu lle ar gyfer cyflogion rheolaidd.

Dylech:

- ystyried cymwysterau, hyfforddiant, gwybodaeth a phrofiad gweithwyr; a
- sicrhau nad yw galwadau'r swydd yn rhagori ar eu gallu i gyflawni eu gwaith heb risg iddynt eu hunain ac eraill.

Efallai y bydd gan rai cyflogion anghenion hyfforddiant penodol, er enghraifft:

- mae recriwtiaid newydd angen hyfforddiant cynefino sylfaenol ar sut i weithio'n ddiogel, yn cynnwys trefniadau cymorth cyntaf, tân a gwacáu mewn argyfwng;
- mae angen i bobl sy'n newid swyddi neu sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol wybod am unrhyw oblygiadau iechyd a diogelwch newydd sydd ynghlwm;
- mae cyflogion ifanc yn arbennig o agored i ddamweiniau a dylech dalu sylw arbennig i'w hanghenion, felly dylai eu hyfforddiant fod yn flaenoriaeth. Mae hefyd yn bwysig fod cyflogion newydd, amhrofiadol neu ifanc yn cael eu goruchwyllo'n ddigonol;
- bydd cynrychiolwyr cyflogion neu gynrychiolwyr diogelwch angen hyfforddiant sy'n adlewyrchu eu cyfrifoldebau;
- efallai y bydd angen diweddarau sgiliau rhai pobl gyda hyfforddiant gloymi.

Dylai'ch asesiad risg nodi unrhyw anghenion hyfforddiant pellach sy'n gysylltiedig â risgiau penodol.

## **Sut allaf i ei wneud?**

Yn gyntaf, dylech ddangos eich ymroddiad fel bod y bobl a hyfforddir yn cydnabod bod yr hyfforddiant yn bwysig. Dylech ymgynghori â'ch cyflogion neu eu cynrychiolwyr ar gynllunio a threfnu'r hyfforddiant. Dylech sicrhau'ch bod yn blaenoriaethu a chynllunio anghenion hyfforddiant eich busnes yn briodol. Efallai y byddwch wedi penodi rhywun i roi 'cymorth cymwys' i chi (gweler 'Y gyfraith') ac fe ddylai allu helpu. Rhowch gynnig ar y dull pump cam canlynol:

### **CAM 1 Penderfynu pa hyfforddiant mae'ch sefydliad angen**

- Nodi'r sgiliau a'r wybodaeth mae pobl eu hangen i wneud eu gwaith mewn ffordd ddiogel ac iach. Cymharwch y rhain yn erbyn sgiliau a gwybodaeth gyfredol pobl a nodi'r bylchau.
- Adolygwch eich profiad o anafiadau, achosion agos neu achosion o afiechyd.
- Edrychwch ar eich asesiadau risg i weld ble nodwyd gwybodaeth ac/neu hyfforddiant fel ffactorau i reoli risgiau.
- Ystyriwch anghenion hyfforddiant ymwybyddiaeth i bawb, yn cynnwys cyfarwyddwyr, rheolwyr a goruchwylwyr, gan gynnwys:
  - sut ydych yn rheoli iechyd a diogelwch;
  - pwy sy'n gyfrifol am beth;
  - y gost i'r busnes os bydd pethau'n mynd o chwith;
  - sut i nodi peryglon a gwerthuso risgiau; ac
  - y peryglon a wynebair a mesurau i'w rheoli.

Os ydych yn cynnig profiad gwaith i bobl ifanc, edrychwch ar [www.hse.gov.uk/youngpeople/index.htm](http://www.hse.gov.uk/youngpeople/index.htm).

## CAM 2 Penderfynu ar eich blaenoriaethau hyfforddiant

- A yw'r gyfraith yn gofyn i chi gyflawni hyfforddiant penodol (e.e. hyfforddiant cymorth cyntaf)? Gweler 'Y gyfraith' am ragor o wybodaeth.
- Dylai blaenoriaethau gynnwys:
  - y rhai ble gall diffyg gwybodaeth ac/neu hyfforddiant achosi niwed difrifol;
  - y rhai allai fod o les i'r nifer fwyaf o staff;
  - y recriwtiaid newydd neu'r rhai sy'n newydd i'r amgylchedd gwaith;
  - pobl yn newid swydd, gwaith neu'n ysgwyddo cyfrifoldebau newydd;
  - pobl yn defnyddio offer newydd.
- Ymgynghorwch â chyflogeion neu eu cynrychiolwyr i gael eu barn.
- Rhaid i chi ddarparu hyfforddiant yn ystod oriau gwaith ac nid ar draul eich cyflogeion. Efallai y bydd angen trefniadau arbennig ar gyfer gweithwyr rhan amser neu weithwyr shift.

## CAM 3 Dewis eich dulliau ac adnoddau hyfforddi

Peidiwch ag anghofio er bod nifer o hyfforddwyr allanol all eich helpu chi, gellir gwneud llawer o hyfforddiant effeithiol yn 'fewnol'.

- Dewis eich dulliau, er enghraifft:
  - rhoi gwybodaeth neu gyfarwyddyd;
  - hyfforddiant neu hyfforddiant mewn swydd;
  - hyfforddiant yn y 'dosbarth';
  - dysgu agored ac o bell;
  - mewn grwpiau neu'n unigol; a
  - dysgu cyfrifiadurol neu ryngweithiol.

Dylech sicrhau'ch bod yn bodloni anghenion hyfforddiant eich gweithlu i gyd, yn cynnwys gweithwyr mudol nad oes ganddynt lefel dda o Saesneg o reidrwydd, gweler [www.hse.gov.uk/migrantworkers/index.htm](http://www.hse.gov.uk/migrantworkers/index.htm), a phobl gyda sgiliau llythrennedd gwael neu rai gydag anableddau, megis gyda'u golwg neu glyw.

- Ystyriwch pwy all helpu trwy eich darparu â gwybodaeth, deunyddiau, cyrsiau hyfforddi ac ati. Er enghraifft, fe allech roi cynnig ar:
  - Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ([www.ukstandards.co.uk](http://www.ukstandards.co.uk));
  - undebau llafur neu gymdeithasau masnach;
  - colegau addysg bellach;
  - sefydliadau hyfforddiant preifat;
  - ymgynghorwyr iechyd a diogelwch annibynnol;
  - cyrff cyflogwyr (e.e. Siambrau Masnach); a
  - chyrff dyfarnu cymwysterau.
- Edrychwch ar [www.gov.uk](http://www.gov.uk) i gael gwybodaeth fanwl a chynghor ar sgiliau a hyfforddiant, yn cynnwys:
  - effaith hyfforddiant ar berfformiad busnes;
  - nodi anghenion hyfforddi;
  - dulliau hyfforddi;
  - sut i sefydlu hyfforddiant mewnol;
  - sut i werthuso'ch hyfforddiant;
  - sut i ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant neu gwrs; a
  - Dysgu trwy rwydweithio ag eraill.

Os ydych yn penderfynu'ch bod angen cymorth pellach gan ffynhonnell allanol, gallwch chwilio am ymgynghorydd trwy ymweld â [www.oshcr.org](http://www.oshcr.org).

### **CAM 4 Cyflawni'r hyfforddiant**

- Sicrhewch fod yr wybodaeth yn hawdd i'w deall a cheisiwch ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau hyfforddi i gyflwyno eich neges.
- Sicrhewch fod yr hyfforddwr wedi cael digon o amser i baratoi ei hun, ei adnoddau a'r lleoliad – mae paratoi yn arbennig o bwysig i bobl nad ydynt yn hyfforddwyr profiadol.

### **CAM 5 Gwirio bod yr hyfforddiant wedi gweithio**

- A yw'ch cyflogeion yn deall beth ydych yn ei ddisgwyl ganddynt?
- A oes ganddynt bellach yr wybodaeth a sgiliau sydd eu hangen i weithio'n ddiogel a heb risg i iechyd?
- A ydynt yn gweithio fel y'i hyfforddwyd i'w wneud erbyn hyn?
- A gafwyd unrhyw welliant ym mherfformiad iechyd a diogelwch eich sefydliad?
- Pa adborth ydych chi'n ei gael gan reolwyr llinell a'r bobl sydd wedi derbyn hyfforddiant?
- A oes angen rhagor o wybodaeth ac/neu hyfforddiant?
- A ddefnyddiwyd y dull hyfforddi mwyaf priodol?
- Pa welliannau a ellir eu gwneud?
- A oes newid mewn ymddygiad ac ymarfer wedi digwydd?
- Gall eich helpu i reoli hyfforddiant os ydych chi'n cadw cofnodion, hyd yn oed os yw'n hyfforddiant mewnol.
- Dylech fonitro cofnodion hyfforddiant er mwyn darparu hyfforddiant gloywi pan fydd angen.

### **Sut arall all yr HSE helpu?**

I'ch helpu i benderfynu ar anghenion hyfforddiant ar gyfer eich busnes, lle da i ddechrau yw ymweld â [www.hse.gov.uk/simple-health-safety/](http://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/), sy'n cynnwys canllaw syml ar asesu a rheoli risgiau iechyd a diogelwch.

### **Gwefannau defnyddiol**


- Bydd [www.learndirect.co.uk](http://www.learndirect.co.uk) yn eich helpu i ddod o hyd i gyrsiau hyfforddiant iechyd a diogelwch (Ffôn: 0800 101 901).
- Gall [www.skillsdevelopmentscotland.co.uk](http://www.skillsdevelopmentscotland.co.uk) eich helpu i ddod o hyd i gwrs hyfforddiant yn yr Alban (Ffôn: 0808 100 9000).
- [www.gov.uk](http://www.gov.uk).
- [www.ukces.org.uk](http://www.ukces.org.uk) Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (UKCES)

## **Mwy o wybodaeth**

Am wybodaeth ynglŷn ag iechyd a diogelwch, neu i adrodd ar anghysondebau neu wallau yn y canllaw hwn, ewch i [www.hse.gov.uk](http://www.hse.gov.uk). Gallwch weld canllawiau'r HSE ar-lein ac archebu canllawiau am bris o'r wefan. Mae cyhoeddiadau am bris yr HSE hefyd ar gael o siopau llyfrau.

Cyhoeddir y canllaw hwn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Nid yw'n orfodol i ddilyn y canllawiau, oni bai y nodir hynny'n benodol, ac rydych yn rhydd i weithredu fel arall. Ond os byddwch yn dilyn y canllaw, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith. Mae arolygwyr iechyd a diogelwch yn ceisio sicrhau cydymffurfiaid â'r gyfraith a gallant gyfeirio at y canllaw hwn.

Mae'r daflen ar gael gan: [www.hse.gov.uk/pubns/indg345W.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/indg345W.htm).

©  *Hawlfraint y Goron* Os ydych yn dymuno aildddefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i [www.hse.gov.uk/copyright.htm](http://www.hse.gov.uk/copyright.htm) am fanylion. Cyhoeddwyd gyntaf 11/12.